

Adnabod Awdur

Yn y dechreuad yr oedd y **GWRANDO**. Gwrando ar Mam yn adrodd stori-cyn-cysgu am hen Flaidd Cwmcerrig. Gwrando ar Mam-gu'n adrodd storïau am ysbrydion a chanhwyllau corff a thoiliod a Thylwyth Teg. Gwrando ar hen fechgyn gyda'r nos yn adrodd storïau 'celwydd-golau'.

Yna mynd i ysgol Capel Mair ac yno – pan o'n i tua saith oed – clywed y prifathro, Mr Davies, yn darllen stori bert am fabi bach yn cael ei adael mewn hen dollborth unig gan ddyn diarth a ddiflannodd i'r nos ar gefn ei geffyl. Wyddwn i ddim beth oedd teitl y llyfr hwnnw, ond fe benderfynais i o'r pryd hynny ymlaen 'mod i'n mynd i ddarllen llyfrau. A dyna wnes i wedyn – darllen a darllen a darllen.

Yna fe ddaeth yr awydd i sgrifennu storïau fy hunan. Sgrifennu oedd y peth gorau fedrwn i 'i neud yn yr ysgol. Ond aeth blynnyddoedd heibio cyn i mi weld cyhoeddi fy nofel gyntaf, *Trysor Plasywernen*, ym 1958. Dros gyfnod o ugain mlynedd, sgrifennais rhyw 30 o lyfrau o bob math i blant.

Mae'r profiadau a gefais a'r llyfrau a ddarllenais yn blentyn bach, wedi cael dylanwad ar y llyfrau a sgrifennais ar ôl tyfu'n ddyn. Deuai carafannau sipsiwn i aros ar ddarn o dir comin ger tŷ Mam-gu ac fe fûm



i'n chwarae gyda phlant y sipsiwn lawer gwaith. Mae fy nofel, *Tân ar y Comin*, yn sôn am sipsiwn ac mae'r prif gymeriad, sef Tim Boswel, yn rhywun y bûm i'n chwarae gydag ef. Fe wnaeth darllen *Treasure Island* yn blentyn i mi hoffi storïau am y môr.



Wedyn ar ôl tyfu'n ddyn, symudais i fyw i lan y môr ger Llangrannog. Dyna sut y daeth *Trysor y Môrladron*, *Barti Ddu* a *Dirgelwch yr Ogof* i fod.

Yr hyn sy'n fy gwneud yn hapus bob amser yw derbyn llythyrau oddi wrth blant yn dweud iddynt fwynhau darllen un o'm llyfrau.

Rwy'n sgrifennu nofelau a phenillion i blant am fy mod i'n hoffi plant yn fwy na phobl mewn oed, ac yn eu deall yn well hefyd!

T. Llew Jones





#CaruDarllen



Dyddiad Geni
Hydref 11, 1915

Ble cawsoch chi eich geni a'ch magu?
Bwlchmelyn, Pentrecwrt, Llandysul.

Ble cawsoch chi eich addysg?
Ysgol Gynradd Capel Mair (bellach wedi cau), Ysgol Uwchradd Llandysul, Coleg Hyfforddi Caerdydd.

Beth roeddech chi'n ei hoffi neu'n ei gasáu am yr ysgol?
Hoffi darllen a criced ac yn casau Mathemateg a Chemeg.

Beth oeddech chi eisiau bod ar ôl tyfu fyny?
Awdur.

Beth oedd eich hoff lyfr yn blentyn?
Oliver Twist, Treasure Island.

Beth yw eich prif ddiddordebau?
Darllen, criced a gwyddbwyll.

Beth sy'n eich gwneud chi'n hapus?
Cael llythyron oddi wrth blant sy wedi cael blas ar ddarllen fy storïau.

Beth sy'n eich gwylltio chi?
Cymry yn esgeuluso'r Gymraeg.

Pryd ddechreusoch chi feddwl am ysgrifennu?
Tua deg oed.

Pa un oedd eich llyfr cyntaf?
Trysor Plasywernen.

Ydych chi'n ei chael hi'n hawdd i ysgrifennu?
Weithiau – weithiau'n anodd.

O ble rydych chi'n cael eich syniadau?
Mae gen i ffynnon – ffynnon y dychymyg (sy wedi sychu erbyn hyn!)

Oes ganddoch chi gyngor i rywun sy'n trio ysgrifennu?
Darllen a darllen a darllen...

Oes rhai o'ch cymeriadau wedi eu seilio arnoch chi?
Nag oes.

Pa un o'ch llyfrau chi yw eich ffefryn?
Rwy'n eu hoffi nhw i gyd!

Pa un yw eich hoff gymeriad?
Rwy'n ffrind i bob un.

Oes unrhyw beth yr hoffech chi ei newid amdanoch eich hunan?
Llawer iawn.

Pa raglenni teledu yw eich ffefrynau?
Does gen i'r un.

Beth yw eich hoff fwyd?
Caws a,
neu
a chaws,
neu caws a.....



Gwobrau

- 1976 Gwobr Tir na n-Og am *Tan ar y Comin*
- 1990 Gwobr Tir na n-Og am *Lleud yn Olau*
- 1991 Tlws Mary Vaughan Jones am waith arbennig ym myd llyfrau plant.